# Marchnad Myfyrwyr Cymru™

**Mae ein Marchnad Nadolig y Myfyrwyr arferol yn o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn y brifysgol (er mai ni sy'n dweud hynny!). Felly ni allwn adael y flwyddyn hon i fynd heibio heb gynnig cyfle i chi, ein myfyrwyr a'n graddedigion brofi masnachu.**

Y newyddion da yw y cewch gyfle eleni i werthu'ch cynhyrchion a'ch gwasanaethau i Gymru gyfan (a thu hwnt) gan ein bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill ledled Cymru i gyflwyno **"Marchnad Myfyrwyr Cymru"!**

Bydd Marchnad Myfyrwyr Cymru yn gyfeiriadur o fusnesau myfyrwyr a graddedigion sy'n cynnig cynhyrchion neu wasanaethau ar-lein, gan unigolion ar draws yr holl Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru.

Un o ofynion Marchnad Myfyrwyr Cymru yw y bydd angen i chi gael eich gwefan eich hun neu lwyfan gwerthu (fel Etsy, Shopify, eBay Shop, ac ati) sy'n gallu cymryd archebion neu daliadau am eich cynhyrchion neu wasanaethau. Os nad oes gennych hynny eto, peidiwch â phoeni - mae gennym dîm sy'n barod i gynnig cefnogaeth i'ch helpu i lansio! Manylion i ddod.

Mae ceisiadau ar agor i'r rheini sy'n dymuno cofrestru eu diddordeb a gallwch wneud hyn trwy lenwi'r ffurflen hon erbyn 27ain o Dachwedd. Byddwn mewn cysylltiad ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd nesaf yn fuan iawn.

Gobeithio eich bod yn teimlo'n mor gyffrous am y cyfle hwn â ni! Mae'n gyfle gwych i chi arddangos eich busnes/syniad i gwsmeriaid ar draws Cymru a thu hwnt.

**Dewch i fasnachu gyda'n gilydd ar-lein!**

## Cwblhewch y ffurflen erbyn y 27ain o Dachwedd

**https://bangor.onlinesurveys.ac.uk/welshstudentmarketbu**

B-Fentrus
B-Enterprising

Prifysgol Bangor University

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government